Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

5. Ymddiriedolwyr a llywodraethu

5.7 Atebolrwydd llywodraethwyr ac aelodau corff llywodraethu

Atebolrwydd yn gyffredinol

Beth yw ystyr atebolrwydd?
Mae atebolrwydd yn golygu bod yn gyfrifol yn gyfreithiol am bethau a wnaethpwyd ac am ddiffygion (pethau heb eu gwneud a ddylai fod wedi eu gwneud).

Pwy all fod yn atebol?
Bydd hyn yn ddibynnol ar statws y mudiad, a'r amgylchiadau y mae'r atebolrwydd yn deillio ohonynt, ond gall y canlynol fod yn atebol:

- corff corfforaethol (cwmni; Cwmni Buddiannau Cymunedol ayb)
- aelodau corff llywodraethu
- cyflogeion mudiad
- aelodau mudiad (mae hyn yn rhywbeth anghyffredin iawn)
- pobl ag awdurdod i weithredu ar ran mudiad (asiant)
- pobl sy'n honni eu bod yn gweithredu ar ran mudiad (hyd yn oed os nad oes ganddynt awdurdod i wneud hynny)
- gwirfoddolwyr (mae hyn yn rhywbeth anghyffredin iawn)

Sut mae atebolrwydd yn codi?
Bydd atebolrwydd yn codi pan fydd unigolion neu fudiadau yn:

- torri'r gyfraith droseddol
- torri eu dyletswydd statudol
- euog o dor-ymddiriedaeth
- torri telerau contract
- torri cyfamodau neu hawliau eiddo eraill
- gweithredu'n groes i'w dyletswyddau mewn achos o ansolfedd
- achosi i gamwedd gael ei gyflawni.

Atebolrwydd personol
Cyfyd atebolrwydd personol pan fydd aelod o'r corff llywodraethu, aelod o fudiad, cyflogai, gwirfoddolwr neu berson arall sy'n gysylltiedig â mudiad yn gorfod defnyddio'u harian eu hunain i gwrdd â rhwymedigaethau'r mudiad, ad-dalu arian iddo am golledion mae'n eu hwynebu, buddiannau personol heb eu hawdurdodi neu gosbau y mae'r mudiad yn eu hwynebu am dorri'r gyfraith.

Atebolrwydd cwmnïau a ffurfiau cyfreithiol eraill

- Mae atebolrwydd aelodau'n cael ei gyfyngu i faint y warant maent wedi'i gwneud neu'r cyfranddaliadau heb eu talu sydd yn eu meddiant
- Bydd pob atebolrwydd arall fel arfer yn gorwedd gyda'r cwmni, ond mewn rhai sefyllfaoedd gall orwedd gyda'r cyfarwyddwyr, ysgrifennydd y cwmni ac uwch gyflogeion
- Ffurfiau cyfreithiol eraill a all fwynhau atebolrwydd cyfyngedig yw Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig, Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a'r Mudiadau

- Ymgorfforedig Elusennol a fydd yn cael eu cyflwyno'n fuan.

Atebolrwydd cymdeithasau anghorfforedig ac ymddiriedolaethau

- Bydd atebolrwydd yn gyd ac unigol, ac fel arfer bydd yn gorwedd gydag aelodau'r corff llywodraethu
- Nid oes amddiffyniad atebolrwydd cyfyngedig ar gael
- **Sylwer:** Mae ymgorfforiad corff llywodraethu elusennol o dan adran 50, Deddf Elusennau 1993 – yn creu endid cyfreithiol sengl ar gyfer y teitl a dibenion olyniaeth ond nid yw'n rhoi atebolrwydd cyfyngedig

Sut mae penderfynu pwy sy'n atebol?

Bydd pwy sy'n atebol yn dibynnu ar y canlynol:

- a yw'r mudiad yn un corfforedig ai peidio
- pwy awdurdododd weithred ac a oedd ganddynt awdurdod i wneud hynny
- pwy gyflawnodd y weithred ac a oedd ganddynt awdurdod i wneud hynny
- pwy oedd yn gyfrifol am hepgor rhywbeth yr oedd dyletswydd arnynt i'w gyflawni

Dosrannu atebolrwydd

Os penderfynir bod aelodau mudiad neu'r corff llywodraethu'n atebol am rwymedigaethau ariannol y mudiad mae'r atebolrwydd yn **gyd ac unigol.** Mae hyn yn golygu y gall pob aelod fod yn atebol am y cyfan neu ran o'r rhwymedigaeth. Ond dylid gwahaniaethu rhwng:

- y bobl hynny a gafwyd yn atebol
- y bobl hynny sy'n cael eu siwio i adennill colled neu fel iawndal am ddifrod

Pan fydd 2 neu fwy o aelodau'n atebol am yr un camwedd (e.e. esgeulustod) neu golled/difrod contractol, ond mai dim ond unigolion detholedig sy'n cael eu siwio, gallant geisio adennill cyfraniad gan yr unigolion eraill sy'n atebol o dan Ddeddf Ateboliaeth Sifil (Cyfraniad) 1978.

All unigolion fod yn atebol am weithredoedd pobl eraill?

At ei gilydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yw na allant; mae pobl yn atebol am eu gweithredoedd eu hunain neu eu methiant i weithredu. Ond ceir nifer o eithriadau mewn cyfraith droseddol a sifil. Er enghraifft lle mae:

- Gan gyflogwr **atebolrwydd dirprwyol** dros weithredoedd esgeulus a chamweddau eraill a gyflawnwyd gan ei gyflogeion tra oeddent yn cael eu cyflogi.
- Gall ymddiriedolwyr fod yn atebol am golledion a achoswyd i'r elusen gan bobl yn gweithredu ar eu rhan ac nad oedd wedi eu goruchwylio'n briodol ayb (gweler pwerau dirprwyo a dyletswydd gofal o dan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000).
- Pan fydd person (yr **asiant**) yn llunio contract ar ran a chydag awdurdod rhywun arall (y **prifai**), bydd y prifai yn parhau i fod yn atebol am y contract.
- Gall cyfraith statudol olygu atebolrwydd sifil a throseddol, yn enwedig ym meysydd cyflogaeth ac iechyd a diogelwch (e.e. gwahaniaethu; mangreoedd gweithio anniogel).
- Gall person fod yn atebol os ydynt yn awdurdodi, cyfarwyddo neu ganiatáu person arall i gyflawni gweithred droseddol.

Pwy yw ymddiriedolwyr elusennau?
Dylid edrych ar unrhyw un sy'n rheoli mudiad fel 'aelod o'r corff llywodraethu', beth bynnag fo'u teitl. Mae aelodau'r corff llywodraethu mewn elusennau'n cael eu galw'n 'ymddiriedolwyr', ac mae cyfraith elusennol yn rhoi cyfrifoldebau ychwanegol arnynt.

Mae **adran 97(1) Deddf Elusennau 1993** yn diffinio ymddiriedolwyr fel '… y bobl sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu elusen'. Mae'r sawl sy'n dod o fewn y disgrifiad hwn yn ymddiriedolwyr beth bynnag fo'u teitl. Yn gyffredinol, mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am weinyddu'r elusen yn briodol yn unol â'r gyfraith, a'i ymddiriedolaethau fel yr amlinellir yn y ddogfen lywodraethu. Eu prif ddyletswydd yw cyflawni amcanion yr elusen ac mae'n rhaid iddynt ddefnyddio incwm ac eiddo'r elusen i gyflawni'r amcanion hyn yn unig.

Rhai pwyntiau penodol ynghylch atebolrwydd ymddiriedolwyr

- Mae ymddiriedolwyr yn parhau'n atebol - hyd yn oed ar ôl iddynt ymddeol - am weithredoedd a gyflawnwyd yn ystod eu cyfnod fel ymddiriedolwyr.
- Ni fydd ymddiriedolwyr newydd yn atebol fel arfer am weithredoedd a gyflawnwyd cyn eu cyfnod yn y swydd, ond rhaid iddynt ymdrechu i gywiro unrhyw anghysonderau a ganfyddir neu gallant fod yn atebol amdanynt.
- Fel arfer ni fydd aelodau corff llywodraethu'n atebol am weithredoedd heb eu hawdurdodi/ultra vires gan ymddiriedolwyr 'twyllodrus', ond rhaid iddynt sicrhau bod pob cam posibl yn cael eu cymryd i atal digwyddiad o'r fath.
- Rhaid peidio anghofio bod gan ymddiriedolwyr gyfrifoldebau penodol o dan reoliadau a'r gyfraith elusennau (e.e. SORP; buddiant personol; ayb).

Meysydd penodol atebolrwydd
Torri cyfraith droseddol a dyletswyddau statudol

- Bydd cyfraith droseddol yn cael ei thorri pan fydd rhywun yn cyflawni trosedd yn erbyn pobl eraill, eiddo neu fudd y cyhoedd. Y wladwriaeth yn hytrach nag unigolion fydd yn erlyn fel arfer (er bod modd dwyn erlyniadau preifat).
- Mae cosbau am beidio cydymffurfio â dyletswyddau statudol yn rhai troseddol yn dechnegol oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi gan y Wladwriaeth (e.e. iechyd a diogelwch).
- Fel arfer bydd person sy'n cyflawni gweithred droseddol yn atebol am eu gweithredoedd eu hunain ond gall corff corfforaethol fod yn atebol am ei weithredoedd troseddol (e.e. dynladdiad corfforaethol) a gall cyflogwyr fod yn agored i atebolrwydd dirprwyol am weithredoedd troseddol a gyflawnwyd gan gyflogeion.
- Mae aelodau corff llywodraethu'n atebol yn bersonol am eu gweithredoedd troseddol fel unigolion neu fel corff.
- Mae unigolion bob amser yn atebol am eu gweithredoedd troseddol eu hunain, boed hwy wedi'u cyflawni fel unigolyn, cyflogai, gwirfoddolwr, aelod o gorff llywodraethu, ayb.

Bydd mudiadau corfforedig fel arfer yn denu atebolrwydd troseddol yn uniongyrchol ond mewn rhai sefyllfaoedd gall aelodau corff llywodraethu fod yn

atebol yn bersonol, gan gynnwys methu â gweithredu Talu Wrth Ennill (PAYE) neu beidio cydymffurfio â dyletswyddau statudol.

Torri contract
Mae contract yn gytundeb cyfreithiol y mae modd i'r llysoedd ei orfodi. Fel arfer bydd mudiad o dan gontract yn atebol os:

- na all y mudiad dalu symiau sy'n ddyledus o dan y contract
- nad yw'n gallu neu'n methu cyflenwi nwyddau neu wasanaethau y mae wedi ymrwymo i'w cyflenwi
- os yw wedi cyflenwi nwyddau neu wasanaethau nad ydynt yn cyrraedd y safonau a bennwyd yn y contract neu y gellid ei ddisgwyl yn ôl y gyfraith
- yw'n torri amodau eraill y contract (e.e. methu cydymffurfio â gofynion adrodd)

Bydd mater atebolrwydd o dan gontract yn dibynnu a yw mudiad yn gorfforedig ai peidio.

Mae **cyrff corfforaethol** yn **bobl gyfreithiol** a gallant eu hunain fod yn barti mewn cytundebau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol. Mae aelodau'r cwmni a'i gorff llywodraethu'n gweithredu fel asiantau'r cwmni ac nid ydynt yn bartïon uniongyrchol yn y cytundeb. Maent wedi'u hamddiffyn rhag atebolrwydd personol am dorri contract ar yr amod bod:

- y contract yn dod o fewn amcanion a phwerau'r mudiad
- gan y rhai a gytunodd i'r contract yr awdurdod i wneud hynny
- nad oedd y rhai a gytunodd i'r contract wedi eu gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr cwmni
- nad ydynt yn caniatáu i'r cwmni wneud contract twyllodrus neu a hwythau'n ansolfent

Nid yw **mudiadau anghorfforedig** yn bobl gyfreithiol ac ni allant lunio contractau. Rhaid i unigolion weithredu ar ran y mudiad ac mae atebolrwydd y contractwr yn **anghyfyngedig**. Gorwedd yr atebolrwydd sylfaenol gyda'r **prifeion** - y sawl a oedd wedi awdurdodi'r contract neu weithred. Mae'r rhai sy'n ymrwymo i gontract yn unig ag awdurdod yn **asiantau.** Fel arfer y prifeion fydd yr ymddiriedolwyr un ai'n uniongyrchol, neu os ydynt yn awdurdodi dirprwyo awdurdod, ond gall ymddiriedolwyr unigol fod yn atebol os ydynt yn gweithredu'n annibynnol ar gorff yr ymddiriedolwyr neu y tu hwnt i'w awdurdod. Mae'n bwysig nodi:

- Sylwer: mae prifeion (gan gynnwys ymddiriedolwyr) yn parhau i fod yn atebol ar ôl iddynt adael eu swydd ac mae'n cael ei drosglwyddo i'r ystâd ar ôl marwolaeth oni bai ei fod yn cael ei ddileu gan gytundeb newyddu.
- Mae **Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999** - yn rhoi hawl i drydydd parti orfodi amodau sydd o fudd iddynt mewn contractau lle nad ydynt yn barti uniongyrchol - eithriedig fel arfer.

Tor-ymddiriedaeth a dyletswydd ymddiriedol duty

- Bydd tor-ymddiriedaeth, neu dorri dyletswydd ymddiriedol (i weithredu'n ddidwyll), yn digwydd pan fydd rhywun mewn safle o ymddiriedaeth yn torri'r ymddiriedaeth honno.
- Ymddiriedolwyr yw'r bobl hynny sy'n cadw asedau mewn ymddiriedaeth ar gyfer buddiolwyr diffiniedig i gael eu

gweinyddu'n unol ag amcanion penodedig – mae ganddynt ddyletswydd ymddiriedol (e.e. elusen).
- Mae gan ymddiriedolwyr ac aelodau cyrff llywodraethu mudiadau anelusennol hefyd ddyletswydd ymddiriedol tuag at eu mudiad. Mae dyletswydd ymddiriedol yn debyg i ddyletswydd ymddiriedaeth ond mae o safon is mewn cwmnïau anelusennol a mudiadau anghorfforedig na rhai elusennol.
- Mae dyletswyddau ymddiriedol cyfarwyddwyr cwmni wedi eu hamlinellu yn y Ddeddf Cwmnïau.

Mae tor-ymddiriedaeth a thorri dyletswyddau ymddiriedol gan unigolyn fel arfer yn arwain at atebolrwydd personol yr unigolyn i'r mudiad. Gall y rhain godi pan fydd pob un neu rai o aelodau'r corff llywodraethu yn:
- Gwneud gwaith, neu'n defnyddio arian /eiddo'r elusen i ymgymryd â gweithgareddau sydd y tu allan i gwmpas amcanion, maes buddiannau'r mudiad neu os nad ydynt yn rhai elusennol (e.e. ymgyrchu gwleidyddol; masnachu).
- Gweinyddu pwerau i ymgymryd â gweithgareddau nas caniateir yn nogfen lywodraethu'r mudiad, neu fethu â chael cydsyniad y Comisiwn Elusennau/Llys pan fod angen cydsyniad.
- Achosi colled i'r mudiad trwy gamreoli, methu â chyflawni dyletswydd gofal priodol neu dderbyn cyngor proffesiynol.
- Dwyn oddi ar y mudiad neu elwa/ennill yn bersonol heb awdurdod.
- Camddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn rhinwedd eu swydd fel ymddiriedolwr neu aelod o'r corff llywodraethu.

Mae ymddiriedolwyr yn atebol am eu gweithredoedd a'u diffygion eu hunain, a hefyd ar y cyd ac yn unigol am benderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethu os oeddent yn rhan ohonynt. Ond nid ydynt yn atebol am weithredoedd cyn ymddiriedolwyr, er bod disgwyl iddynt gymryd camau adferol i adennill colledion cyn gynted ag y cânt eu darganfod. Os yw ymddiriedolwyr yn credu bod tor- amod yn debygol o gael ei gyflawni gan gyd-ymddiriedolwr(wyr), rhaid iddynt gymryd camau positif i leisio'u pryderon, ac os byddant yn ymddeol cyn cyflawni'r tor-amod dylent wneud cais ysgrifenedig i gael eu rhyddhau rhag atebolrwydd. Bydd ymddiriedolwyr sy'n ymddeol, ac ystâd ymddiriedolwyr a fu farw, yn parhau i fod yn atebol am dor-amodau a gyflawnwyd ganddynt pan oeddent yn eu swydd.

Sylwer: Nid yw atebolrwydd cyfyngedig yn diogelu cyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr rhag tor-ymddiriedaeth na thordyletswydd ymddiriedol.

Camweddau

Mae **camwedd** yn gamwri sifil sy'n arwain at anaf, colled neu ddifrod i berson. Fel arfer mewn achos o gamwedd bydd rhaid cael bwriad i gyflawni'r weithred, neu esgeulustod; fodd bynnag, mae cyflawni rhai camweddau'n arwain at **Atebolrwydd Caeth** lle nad oes angen bwriad nac esgeulustod. Mae camweddau cyffredin yn cynnwys esgeulustod; difenwad; niwsans, a thresmasu.

Y sawl sy'n agored i gamwedd:

- Gall unigolion neu gyrff corfforaethol gyflawni camweddau.
- Mae unigolion yn atebol am eu gweithredoedd camweddus eu hunain ac am y rhai maent yn eu hawdurdodi. Ond mae gan gyflogwyr hefyd atebolrwydd dirprwyol am y camweddau a gyflawnir gan eu cyflogeion yn ystod y cyfnod cyflogi. Mae hyn yn wir hyd yn oed os nad oedd y cyflogwr wedi awdurdodi neu os nad oedd hyd yn oed yn gwybod am y weithred.
- Gall mudiadau wynebu atebolrwydd dirprwyol am weithredoedd gwirfoddolwyr pan eu bod yn eu trin fel cyflogeion, neu'n atebol yn uniongyrchol os nad ydynt wedi eu hyfforddi neu eu goruchwylio'n ddigonol.
- Mae aelodau corff llywodraethu'n atebol am eu camweddau eu hunain, rhai'r corff llywodraethu, rhai'r mudiad neu rai pobl eraill a awdurdodwyd ganddynt neu a ganiatawyd i ddigwydd.
- Fel arfer ni fydd aelodau corff llywodraethu'n atebol am gamweddau'r corff llywodraethu neu'r mudiad os nad oedd yn ymwybodol o'r penderfyniad neu'r weithred pan ddigwyddodd, neu a oedd yn gwybod amdani ond nad oedd yn rhan ohoni.
- Gall holl aelodau mudiad anghorfforedig fod yn atebol am gamwedd os: oeddent i gyd wedi ei awdurdodi neu ei gyflawni; mewn rheolaeth lwyr dros y gweithgarwch; y credir mai hwy yw deiliaid de facto'r fangre, neu y credir mai hwy yw'r cyflogwr de facto.

Diogelu rhag atebolrwydd

Gall elusennau a mudiadau gwirfoddol ddiogelu eu hunain, neu leihau'r risg o atebolrwydd personol a sefydliadol mewn nifer o ffyrdd:

Corffori

Mae corffori'r mudiad fel un o ffurfiau cwmni'n creu endid cyfreithiol ar wahân gydag atebolrwydd cyfyngedig a all lunio contractau, dal tir ayb, a thrwy hynny fod ei hun yn atebol yn gyfreithiol yn hytrach na bod ei aelodau'n atebol:

- Mae atebolrwydd aelodau wedi'i gyfyngu i faint y warant maent wedi'i gwneud neu faint o gyfranddaliadau heb eu talu sydd ganddynt.
- Nid yw cymdeithasau ac ymddiriedolaethau anghorfforedig yn gyrff corfforedig ac nid ydynt yn mwynhau atebolrwydd cyfyngedig - mae aelodau cyrff llywodraethu'r rhain yn atebol yn bersonol am weithredoedd y mudiad.

Nid yw corffori'n amddiffyn aelodau'r corff llywodraethu rhag:

- dirwyon neu gosbau am eu gweithredoedd troseddol eu hunain neu rai'r mudiad na thordyletswydd statudol
- atebolrwydd i'r mudiad am eu tor-ymddiriedaeth neu dordyletswydd ymddiriedol eu hunain
- atebolrwydd am gontractau sydd y tu hwnt i amcanion neu bwerau'r mudiad h.y. gweithredu **ultra vires** (oni bai bod hynny wedyn wedi'i gadarnhau gan aelodau'r cwmni mewn cwmni anelusennol yn unig)
- atebolrwydd am ddyledion a gododd tra bod y cwmni'n ansolfent, neu ar y ffordd i fod yn ansolfent **- cam-fasnachu** a **masnachu twyllodrus.**

Y Comisiwn Elusennau

Gall ymddiriedolwyr elusennau ofyn **yn ysgrifenedig am gyngor** gan y Comisiwn Elusennau o dan **adran 29 Deddf Elusennau 1993** cyn cyflawni gweithred maent yn ansicr yn ei chylch, neu ynghylch gweinyddu elusen mewn ffordd briodol. Ni all ymddiriedolwyr wedyn fod yn atebol am unrhyw dor-ymddiriedaeth a all godi ar yr amod:

- eu bod wedi datgelu'r holl ffeithiau perthnasol i'r Comisiwn pan oeddent yn gofyn am gyngor
- eu bod yn glynu'n gaeth wrth y cyngor a roddwyd iddynt

Sylwer: mae **adran 73D Deddf Elusennau 1993** (fel yr ymgorfforwyd yn Neddf Elusennau 2006, adran 38) wedi cyflwyno pŵer i'r Comisiwn Elusennau i ganiatau rhyddhad rhag tor-ymddiriedolaeth neu dor-dyletswydd os ystyrir bod ymddiriedolwr wedi ymddwyn yn onest a rhesymol.

Cyfyngu ar atebolrwydd yn y ddogfen lywodraethu
Mae modd cynnwys cymal yng nghyfansoddiad mudiad anghorfforedig sy'n datgan nad yw aelodau cyffredin yn atebol am ddyledion neu weithredoedd y mudiad. Nid yw hyn yn eu hamddiffyn os ydynt:

- yn aelodau o gorff llywodraethu'r mudiad
- yn brifeion mewn contract
- yn cyflawni gweithred droseddol neu gamwedd

Yn yr un modd, gall dogfen lywodraethu ymddiriedolaeth geisio cyfyngu atebolrwydd ymddiriedolwyr am golledion i'r ymddiriedolaeth/elusen lle mae cyngor priodol wedi'i ddilyn (e.e. perfformiad gwael buddsoddiadau).

Cymalau contractol sy'n cyfyngu ar atebolrwydd
Dylai mudiadau ac ymddiriedolaethau anghorfforedig ystyried cynnwys cymalau mewn contractau i gyfyngu ar atebolrwydd aelodau ac aelodau cyrff llywodraethu i faint asedau'r mudiad (ond yn aml wrthwynebir cymalau o'r fath).

Er mwyn atal y contract rhag bod yn amodol ar gytundebau/gohebiaeth ayb eraill, y gallech fod wedi anghofio amdanynt neu heb fod yn ymwybodol ohonynt, mae'n syniad da bob amser i gynnwys cymal 'cytundeb llwyr' sy'n datgan mai'r ddogfen bresennol yw'r unig gontract rhwymol.

Eithriadau rhag atebolrwydd
Mewn rhai achosion gellir cyfyngu ar atebolrwydd trwy gynnwys **cymal eithriad rhag atebolrwydd** neu **ymwadiad** mewn contract, prydles ayb, ond dylid cael cyngor cyfreithiol cyn ceisio cyfyngu neu eithrio atebolrwydd fel hyn. Ni ellir osgoi atebolrwydd mewn achosion os oes modd profi dyletswydd gofal amlwg, neu os oes gofyniad cyfreithiol neu ddyletswydd statudol i amddiffyn. Rhaid cymryd camau rhesymol i gwrdd â'r ymrwymiadau hyn ac ni ellir byth eithrio rhag atebolrwydd am anafiadau personol neu farwolaeth (**Deddf Telerau Contract Annheg 1977, adran 2**)

Indemniad
Mae indemnio rhywun yn golygu gwneud iawn iddynt am golled maent wedi'i dioddef; fodd bynnag, mae'r hawl hon yn gwbl ddiwerth os nad yw asedau

neu yswiriant y mudiad yn ddigon i gwrdd â chyfanswm yr atebolrwydd. Nid oes hawl i gael indemniad yn erbyn dirwyon neu gosbau neu os yw'r unigolyn yn atebol i'r mudiad ei hun (e.e. tor-ymddiriedaeth).

Gall unigolion mewn mudiadau gwirfoddol ac elusennau fod â hawl i indemniad o dan:

- **Statud**:
  - Mae gan ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth neu elusen hawl i gael eu digolledu allan o gronfeydd yr ymddiriedolaeth am gostau a gododd ar ran yr ymddiriedolaeth os oeddent yn gweithredu ag awdurdod a gofal dyledus (Deddf Ymddiriedolwyr 2000, adran 31).
  - Gall cwmni ddarparu benthyciadau a thalu ffioedd cyfreithiol cyfarwyddwr, ysgrifennydd cwmni, uwch gyflogai neu archwilydd mewn amddiffyniad llwyddiannus o achos yn ymwneud â throseddau yn erbyn y cwmni (ond ni all indemnio yn erbyn cosbau mewn achos llwyddiannus).
- **Cyfraith gyffredin:** os yw aelod o gorff llywodraethu cymdeithas anelusennol, neu aelod cyffredin unrhyw gymdeithas, yn cael ei siwio'n llwyddiannus gan drydydd parti mae ganddynt hawl i gael eu hindemnio am iawndal a chostau os cawsant eu siwio fel cynrychiolydd yr holl aelodau, neu os oeddent yn ymgymryd â gweithgareddau ar ran a chyda chymeradwyaeth y gymdeithas a'i haelodau. Mae'r hawl i indemniad wedi'i gyfyngu i asedau'r mudiad ac ni ellir gwneud cais am indemniad oddi wrth aelodau eraill oni bai bod y ddogfen lywodraethu'n caniatáu hynny.

- **Y ddogfen lywodraethu:** gall roi hawliau indemniad ymchwnegol i aelodau cyffredin ac aelodau corff llywodraethu o gronfeydd y mudiad ar gyfer atebolrwydd a ddeilliodd yn briodol o reoli busnes y mudiad. Fodd bynnag, mae cymal o'r fath yn aml yn amlinellu nifer o eithriadau megis gweithredu ultra vires. **Sylwer**: Os oes gan y mudiad ymddiriedolwyr daliannol dylid cael darpariaeth i'w hindemnio yn erbyn colledion a all godi yn sgil cyflawni eu dyletswyddau.

Cyfraniadau

- Pan fo dau neu fwy o aelodau corff llywodraethu'n atebol ar y cyd ac yn unigol am hawliad contractol neu gamweddol, ond mai dim ond rhai ohonynt yn unig sy'n cael eu siwio, gallant ofyn am i gyfraniad gan y lleill gael ei asesu gan y llys yn erbyn eu cyfrifoldeb cymharol o dan **Ddeddf Ateboliaeth Sifil (Cyfraniad) 1978**.
- Mewn cyfraith gyffredin, os bydd rhai neu bob un o aelodau corff llywodraethu'n atebol am gontract a bod un neu ragor yn talu cyfran anghyfartal, mae ganddynt hawl i dderbyn cyfraniad oddi wrth y lleill.

Gwybodaeth Bellach

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
Ffôn: 0870 333 0123
www.charity-commission.gov.uk

Reducing the Risks - A Guide to Trustee Liabilities,
www.governancehub.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:04/01/2010

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk